

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL  
RHONDDA CYNON TAF**

**GWŶS I GYFARFOD**

**P J Lucas**  
**Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol**  
**Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf**  
**Y Pafiliynau**  
**Parc Hen Lofa'r Cambrian**  
**Cwm Clydach CF40 2XX**

Ms.Karyl May - Ffôn. (01443) 424045

**DYMA WŶS I CHI** i gyfarfod o **GYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF** sydd i'w gynnal yn Swyddfeydd Cyngor y Fwrdeistref Sirol, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, **brynhawn Mercher, 24 Chwefror 2016 am 5.00.**

**AGENDA**

**Tudalennau**

**DATGAN BUDDIANT**

- 1** Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau, yn unol â gofynion Côd Ymddygiad y Cyngor

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant personol sy'n rhagfarnu, mae **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

- 2** **CYHOEDDIADAU**

- 3** **COFNODION**

Cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 27 Ionawr 2016 yn rhai cywir.

**1 - 12**

- 4** **LLYWODRAETHU AGORED:**

- 5** **DATGANIADAU** yn unol â gofynion Rheol Dull Gweithredu 2

Derbyn datganiadau gan Arweinydd y Cyngor a/neu Gynghorwyr sy'n Aelodau o'r Cabinet mae gyda nhw gyfrifoldebau gweinyddu.

## **6 CWESTIYNAU GAN Y CYNGHORWYR**

- (a) **Cwestiwn gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol M.Weaver i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion (Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol M.Forey)**

"Y Cyngorydd Forey, a wnewch chi ddatganiad ar y blaenoriaethau gwasanaeth ar gyfer pobl hŷn yn y Sir?"

- (b) **Cwestiwn gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol C.Leyshon i Ddirprwy Arweinydd y Cyngor (Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol K.Montague).**

"Beth mae'r Cyngor yn ei wneud i fynd i'r afael ag eiddo gwag yn y Fwrdeistref Sirol?"

- (c) **Cwestiwn gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol H.Boggis i Ddirprwy Arweinydd y Cyngor (Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol K.Montague).**

"Pa gymorth/cefnogaeth y mae'r Cyngor yn eu rhoi i sefydliadau'r trydydd sector?"

- (ch) **Cwestiwn gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol G.Thomas i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant, Cydraddoldeb, a'r Gymraeg (Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol G.Hopkins).**

"Sut mae'r Cyngor yn ceisio rhoi cymorth a chefnogaeth i sefydliadau allanol ynglŷn â hyrwyddo'r Gymraeg?"

- (d) **Cwestiwn gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol M.J.Watts i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion (Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol M.Forey)**

"A wnewch chi roi'r diweddaraf ynglŷn â Chartref Gofal y Rhondda?"

## **7 CYFLWYNIAD – Tanau Bwriadol a Thanau Gwyllt**

Derbyn cyflwyniad Mr.H.Jakeway, Prif Swyddog Tân (Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru).

## **8 Strategaeth Cyllideb Refeniw y Cyngor ar gyfer**

**2016/2017**

Trafod adroddiad y Cabinet.

**13 – 98**

**Noder:** Yn unol â gofynion Rheol Dull Gweithredu 2(b) Y Fframwaith Cyllideb a Pholisi, rhaid i'r canlynol gael ei drafod mewn cysylltiad â'r adroddiad uchod:

"Cyflwynir gwelliant i'r Gyllideb gerbron ar rannau Gr Plaid Cymru yn ôl yr amserlen sydd i'w chaniatáu ar gyfer y cyfryw newidiadau.

Gwelliant wedi'i gyflwyno yn enwau'r Cyngorwyr P.Jarman, G.Davies, C.Davies, S.Rees-Owen, M.Weaver, S.Evans-Fear, E.Webster, I.Pearce, K.Morgan

Bod yr holl ffioedd a thaliadau y mae'r Cyngor yn eu derbyn ar hyn o bryd yn cael eu rhewi yn ôl eu prisoedd presennol ar gyfer Blwyddyn Ariannaol 2016/17. Effaith y gwelliant hwn yw y byddai'r £450,000 (amcangyfrif) a fyddai'n cael eu gwireddu trwy weithredu'r cynnydd arfaethedig o 3% yn uwch na'r Mynegai Prisiau Manwerthu yn dod o Falansau'r Gronfa Gyffredinol, gan eu lleihau nhw o £10.5miliwn i £10.05miliwn sy'n dal i fod uwchben y lefel leiaf o Falansau'r Gronfa Gyffredinol a ddylai fod gan y Cyngor".

## **9 Cynllun Corfforaethol y Cyngor 2016-2020 (Drafft)**

Trafod adroddiad y Prifweithredwr

**99 - 156**

## **10 RHYBUDDION O GYNNIGION**


- (a) Trafod Rhybudd o Gynnig sydd wedi'i gyflwyno yn enwau Cyngorwyr y Fwrdeistref Sirol P.Jarman, G.Davies, C.Davies, M.Weaver, S.Rees-Owen, S.Evans-Fear, K.Morgan, E.Webster ac I.Pearce:-

"Oherwydd y buddion i Fwrdeistref Sirol RhCT, mae'r Cyngor hwn yn cefnogi aelodaeth barhaus y DG o'r Undeb Ewropeaidd".

- (b) Trafod Rhybudd o Gynnig sydd wedi'i gyflwyno yn enwau Cyngorwyr y Fwrdeistref Sirol P.Jarman, G.Davies, C.Davies, M.Weaver, S.Rees-Owen, S.Evans-Fear, K.Morgan, E.Webster ac I.Pearce:-

"Bod y Cyngor hwn yn gofyn i'r Cabinet i ailystyried ei benderfyniad i godi tâl am Gludiant Cartref-Ysgol".

- 10** Trafod unrhyw faterion sydd, yn ôl doethineb y Maer, yn faterion brys yng ngoleuni amgylchiadau arbennig.

A handwritten signature in cursive script, appearing to read 'P. J. Lucas', with a horizontal line underneath.

**Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a  
Llywodraethol**

**At: Pob aelod o'r Cyngor**

**17<sup>eg</sup> Chwefror 2016**